

Llywodraeth Cymru  
30fed Mawrth 2020

Yn ystod lledaeniad y coronafeirws, mae trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith i ofalu am blant mewn argyfwng ac er mwyn i staff o wahanol asiantaethau weithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl.

Bydd rhai ymarferwyr yn gweithio mewn gwasanaethau neu adeiladau sy'n newydd iddynt a chyda phlant a phobl ifanc nad ydynt yn eu hadnabod. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhyddhau awdurdodau lleol na'u partneriaid perthnasol o'u dyletswyddau statudol priodol mewn perthynas â diogelu.

Mae'n hanfodol bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael gwybodaeth glir ynglŷn â sut i fynegi pryderon yn ymwneud â diogelu. Rydym wedi paratoi gwybodaeth ar gyfer ymarferwyr ar sut i ymateb i bryder yn ymwneud â diogelu. Rydym hefyd wedi paratoi poster fel bod pawb yn y gwasanaeth neu'r adeilad yn gwybod yn glir pwy yw'r Person Diogelu Dynodedig y diwrnod hwnnw. Gall y person hwn newid, yn amlwg, wrth i bobl orfod hunanynysu.

Mae diogelu plant yn faes busnes hanfodol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd Timau Dyletswydd Argyfwng yn parhau i dderbyn galwadau am blant sydd mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod.

Gallwch hefyd ddarllen rhagor o wybodaeth ar-lein am:

[Rhannu gwybodaeth i ddiogelu pobl](#)

[Adrodd am blentyn mewn perygl](#)

Mae manylion cyswllt Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdodau lleol ar gael ar wefannau'r Byrddau Diogelu:

#### **Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg**

<https://www.cardiffandvalersb.co.uk/cy/plant/cysylltwch-a-ni/rhowch-wybod-am-bryderon/>

#### **CYSUR/Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru**

<https://www.cysur.cymru/cysylltiadau-a-dolenni-defnyddiol/rhoi-gwybod-am-bryderon-plant/>

#### **Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf Morgannwg (gweler ochr dde'r dudalen)**

<https://www.cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk/Cy/ChildrenYoungPeople/ChildrenYoungPeople.aspx>

#### **Bwrdd Diogelu Plant Gwent**

<https://www.gwentsafeguarding.org.uk/cy/Children/Report/Report-a-child-at-risk.aspx>

#### **Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (gweler gwaelod y dudalen)**

<https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/gwybodaeth/>

#### **Bwrdd Diogelu Plant Gorllewin Morgannwg (Bae'r Gorllewin)**

<http://www.wbsb.co.uk/4476?lang=cy-gb>